Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cofnodion cymeradwy cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022, drwy gyfrwng Timau

| | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol | |
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp – Cymorth Busnes |
| Mrs D Davies (DD) - Ysgrifennydd | Prif Swyddog – Strategaeth Busnes a Pherfformiad |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Nam Meddygol a Symud Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Tîm Gofal Plant |
| Y Cyng J-P Blundell (Y Cyng JPB) | Aelod y Cabinet dros Addysg |
| Cynrychiolwyr Ysgolion (cymunedol a gwirfoddol rheoledig) | |
| Mr A Slade (AS) | Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |
| Cynrychiolwyr Ysgolion (gwirfoddol a gynhelir) | |
| Mr J Tarran (JT) – Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |
| Cynrychiolwyr yr esgobaeth Babyddol | |
| Ms Anne Robertson (AR) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |
| Cynrychiolwyr esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru | |
| Ms Rebecca Morteo (RM) | Arweinydd Gweithredol Addysg Esgobaeth Llandaf |
| Cynrychiolwyr Cymunedol | |
| Mr W Bond (WB) | Ysgol Heronsbridge |
| Aelodau ychwanegol | |
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.

Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth BD ac RM.

## 2. Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd ar gyfer blwyddyn ysgol 2022-2023

Cynigiwyd RD, JT a DD yn Gadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd. Cymeradwywyd y cynnig gan bawb oedd yn bresennol. Derbyniodd RD, JT a DD y swyddi am flwyddyn ysgol 2022-2023.

## 3. Aelodaeth y fforwm am flwyddyn ysgol 2022-2023

Cyfeiriodd DD at Atodiad A, sef dogfen oedd yn rhoi manylion aelodaeth arfaethedig y fforwm ar gyfer 2022-2023. Fel y dywedwyd eisoes,

Dywedodd DD wrth yr aelodau fod Ms Delyth Nicholls, Pennaeth Dros Dro Ysgol y Ferch o'r Sgêr, i fod i ddod yn aelod yn wreiddiol yn dilyn ymddeoliad Mrs Rhiannon Dixon. Fodd bynnag, nid oedd hyn am ddigwydd a disgwylid cadarnhad yn fuan pa bennaeth cyfrwng Cymraeg fyddai'n ymuno â'r aelodaeth.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod AR ac RM wedi dod yn aelodau o'r fforwm a diolchodd RD am ymrwymiad yr esgobaethau i'r fforwm.

Atgoffodd DD yr aelodau fod cais wedi cael ei wneud i gysylltu â Chyngor Ffoaduriaid Cymru ynghylch aelodaeth bosibl o'r fforwm yn y dyfodol. Dywedodd DD y bu cysylltiadau â Chyngor Ffoaduriaid Cymru a bod gwahoddiad wedi cael ei estyn, ond na chafwyd unrhyw atebion.

Cyfeiriodd DD at newid o fewn Tîm Ymgysylltu ag Addysg y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Roedd hyn wedi arwain at swydd Cydgysylltydd Ymgysylltu ag Addysg gyda chyfrifoldebau'n ymwneud â grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed, sy’n cyd-fynd yn dda â'r grwpiau mynediad teg. Awgrymodd DD y dylid ystyried estyn gwahoddiad i ddeilydd y swydd honno i ymuno â'r aelodaeth. Cefnogwyd y cynnig.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2022 a materion yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.

Cadarnhaodd yr aelodau y dylid estyn gwahoddiadau i ymuno â'r aelodaeth eto i bob rhiant lywodraethwr a llywodraethwr cymunedol yn ystod 2022-2023.

Rhoddodd DD ddiweddariad llafar ynghylch derbyniadau i ysgolion plant oedd yn cyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr o'r Wcráin. Ym mis Ebrill a mis Mai 2022, yn fuan ar ôl i’r plant ddechrau cyrraedd Cymru o’r Wcráin, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ofyniad i sgrinio ar gyfer diciâu gweithredol (TB). Cyhoeddodd ICC gyngor na ddylai plant fynychu’r ysgol cyn eu sgrinio a chael cliriad meddygol. Newidiwyd hyn yn ddiweddarach i gyngor nad oedd plant oed uwchradd i fynychu'r ysgol cyn cael cliriad meddygol ond y gallai plant oed cynradd fynychu'r ysgol cyn cael cliriad meddygol os oeddent yn ymddangos yn iach. Felly, er bod penderfyniadau derbyn wedi mynd rhagddynt fel arfer, hysbyswyd rhieni/gofalwyr am y sefyllfa o ran dechrau ysgol a gofynnwyd i ysgolion

wneud penderfyniadau ynghylch dyddiadau dechrau ar gyfer plant unigol, oedd yn adlewyrchu cyngor ICC.

Roedd gwybodaeth ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi nad oedd unrhyw achosion o TB gweithredol wedi cael eu canfod drwy sgrinio. Yn unol â hynny, roedd y cyngor wedi newid, ac nid oes ar blant Wcráin angen cliriad meddygol mwyach cyn mynychu'r ysgol.

Ar 9 Medi 2022, bu 66 o geisiadau am leoedd ysgol i blant o'r Wcráin. O'r rhain, roedd 30 cais yn ymwneud â phlant oed cynradd, gyda 28 yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol a 2 i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Roedd 36 o geisiadau ar gyfer plant oed uwchradd gyda 26 yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol a 10 i Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod llawer o'r teuluoedd Wcreinaidd yn cael eu lletya gan deuluoedd mewn dim ond ychydig o glystyrau daearyddol, gyda lleoedd ysgol yn yr ardaloedd hynny eisoes dan bwysau. Atgoffodd DD yr aelodau nad oes gan blant o'r Wcráin statws eithriadol o ran derbyniadau i ysgolion. Lle na ellid cynnig lle yn yr ysgol y gofynnwyd amdani, cynigiwyd lle yn yr ysgol addas agosaf arall. Bu un achlysur pan wrthododd rhiant yr ysgol arall a gynigiwyd ac roedd y rhiant, yn lle hynny, wedi dilyn pecyn dysgu ar-lein annibynnol. At hynny, bu un apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod lle yn yr ysgol y gofynnwyd amdani. Nid oedd y panel apêl annibynnol wedi cadarnhau'r apêl.

Dywedodd DD fod y wybodaeth a dderbyniwyd hyd yma yn adrodd bod addysg statudol yn yr Wcráin yn dechrau'n hwyrach nag yn y DU ac yn parhau nes bod y dysgwr yn 18 oed. Fodd bynnag, roedd pob cais a dderbyniwyd ac eithrio dau wedi bod ar gyfer mynediad i'r grŵp blwyddyn cywir ar gyfer oed cronolegol y dysgwr. Tua diwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf, derbyniwyd nifer o geisiadau ar gyfer mynediad i Flwyddyn 11. O ystyried yr anawsterau amlwg oedd yn gysylltiedig â mynediad i Flwyddyn 11 bryd hynny, roedd rhieni/gofalwyr a dysgwyr wedi cael eu cyfeirio i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr. Gwyddys mai dyma'r dull arferol mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gyfer dysgwyr yn yr oedran hwnnw.

Tynnodd RD a DD sylw hefyd at yr haenau amrywiol o gymhlethdod gyda rhai ceisiadau ac ymgynghori â gwasanaethau priodol yn yr awdurdod lleol, yn ôl yr angen. Mewn un achos, roedd y plentyn wedi cael diagnosis, ychydig cyn cyrraedd y DU, o gyflwr yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd gan y rhiant ddisgwyliadau o ran sut y dylid cefnogi'r plentyn mewn addysg; Fodd bynnag, yn y DU, ni fyddai’r diagnosis wedi cael ei wneud ar gyfer plentyn mor ifanc.

## 5. Rhaglen waith ddrafft 2022-2023

Cyflwynodd DD y rhaglen waith ddrafft, oedd yn adlewyrchu cyfrifoldebau’r fforwm, fel y’u heglurwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion, a chynigiodd y ffyrdd y gallai’r fforwm gyflawni’r cyfrifoldebau hynny ym mlwyddyn ysgol 2022-2023. Dywedwyd bod tri chyfarfod wedi eu cynnig am y flwyddyn.

Awgrymodd DD, yng ngoleuni'r cytundeb yn gynharach yn y cyfarfod, y dylid estyn gwahoddiad i'r Cydlynydd Ymgysylltu ag Addysg ddod yn aelod, y gellid trefnu cyflwyniad

ar gyfer y trydydd cyfarfod ynglŷn â phrosesau yn ymwneud â grwpiau agored i niwed, oedd yn gysylltiedig â mynediad teg. Cefnogwyd y cynnig a chadarnhawyd y dylid ychwanegu hyn at y rhaglen waith.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod rhai agweddau ar y rhaglen waith yn dibynnu ar yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn darparu gwybodaeth. Dywedodd JT y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r clwstwr.

Dywedodd DD nad oedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad blynyddol y fforwm am 2021-2022 i Lywodraeth Cymru wedi dod i law eto, ond y disgwyliad oedd y byddai hynny tua chanol mis Ionawr

## 6. Polisi Drafft Derbyniadau i Ysgolion 2024-2025 – yr awdurdod lleol

Amlinellodd DD mai'r ddogfen sylfaen oedd polisi 2023-2024, gyda'r holl newidiadau arfaethedig ar gyfer 2024-2025 wedi cael eu holrhain. Gwahoddwyd cwestiynau a thrafodaeth ar unrhyw newidiadau arfaethedig ond nodwyd mai bychan oedd llawer o'r newidiadau, megis dyddiadau. Y newidiadau mwyaf sylweddol a amlygwyd oedd

- Safoni'r holl gylchoedd derbyn i fod yn agored am 14 wythnos yn gyffredinol, ar wahân i rownd Derbyn i'r Feithrinfa yn Rhan-Amser, fyddai'n parhau i fod ar agor am 8 mis yn gyffredinol.

- Newidiadau i'r geiriad mewn rhai adrannau i adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr ysgolion, y gall rhiant fynegi dewis ar eu cyfer ar adeg gwneud y cais, i dair ar gyfer rowndiau derbyn Meithrin Rhan-amser, Meithrin Llawn Amser a Dosbarth Derbyn.

- Dim cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, esboniodd RD y câi adroddiad ei baratoi yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac yna'r Cabinet ar rinweddau a goblygiadau creu dalgylchoedd caled ar gyfer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na chynnal y dull gweithredu sy'n seiliedig ar yr ysgol gynradd Cymraeg agosaf. Esboniodd RD mai dim ond un ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg sydd yna ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a ffin Sir Pen-y-bont ar Ogwr fyddai yn parhau i fod yn ffin yr ysgol honno. Mater i'r Cabinet wedyn fyddai penderfynu a ddylid symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus. Ar hyn o bryd, byddai'n amhriodol cynnwys rhywbeth yn y polisi gan nad oes newid o'r fath wedi cael ei gytuno'n ffurfiol. Yn y pen draw, pe bai dalgylchoedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, gellid gwneud cais i Lywodraeth Cymru am ddiwygiad ffurfiol i'r polisi ar gyfer y flwyddyn bolisi berthnasol. Tynnodd y Cyng JPB sylw at y ffaith y byddai'n bwysig i'r Cabinet asesu manteision ac anfanteision unrhyw gynigion a deall barn y cyhoedd, er mwyn sicrhau y byddai newid o'r fath yn arwain at fanteision gwirioneddol.

- Gyda golwg ar yr adran ar drefniadau gydag awdurdodau cyfagos, cynigiwyd ei gwneud yn fwy eglur drwy newid y cyfeiriad at 'disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Abercerdin' i 'disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Abercerdin'. Gwahoddwyd CC i ystyried a fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys yr

adran hon. Cytunwyd y byddai angen rhywfaint o newid i sicrhau ei bod yn glir na fyddai RhCT yn darparu cludiant i Ysgol Gyfun Pencoed ar gyfer unrhyw ddisgyblion oedd eisoes yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond yn mynychu ysgol gynradd yn RhCT. Cytunwyd y byddai DD a CC yn trafod y tu allan i'r cyfarfod ynghylch y newidiadau oedd eu hangen i'r geiriad.

Cyfeiriodd CC at bryderon a godwyd yn ddiweddar gan rieni/gofalwyr disgyblion oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau neu Ysgol Llanhari, ynghylch y ffaith y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dileu cludiant i'r ysgolion hynny.

Eglurodd RD fod y ddarpariaeth cludiant wedi cael ei dileu ym mis Chwefror 2019 ar gyfer polisi 2020-2021 yn dilyn sylwadau cryf a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori gan yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y prif bryder oedd yr effaith ar gynaliadwyedd addysg gyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr pe bai disgyblion yn cael eu cynorthwyo i fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr. O ystyried y bwriad i dyfu addysg gyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel y'i hadlewyrchir yn nhargedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr, roedd yn rhaid ystyried y sylwadau hynny.

O ystyried y buddsoddiad mewn addysg gyfrwng Cymraeg, a'r gallu i gynnwys plant yn y darpariaethau cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, penderfynodd y Cabinet ddileu cymorth trafnidiaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr.

Eglurodd RD fod cymorth cludiant yn parhau ar gyfer unrhyw ddisgybl oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau neu Ysgol Llanhari ar adeg y newid yn y polisi, hyd nes i gyfnod presennol eu haddysg ddod i ben. Felly, er enghraifft, roedd disgyblion oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar adeg y newid yn parhau i dderbyn cludiant tan ddiwedd Blwyddyn 6. Pe bai'r rhieni/gofalwyr wedyn yn arfer eu dewis fel rhieni i wneud cais i Ysgol Llanhari, ni fyddai cymorth ar gyfer cludiant i'r ysgol honno gan Ben-y-bont ar Ogwr.

Tynnodd RD sylw at y ffaith mai isel oedd niferoedd y disgyblion yr effeithid arnynt. Dywedodd DD, ar gyfer mis Medi 2022, fod chwe disgybl yr oedd eu rhieni wedi gwneud cais yn wreiddiol am leoedd Blwyddyn 7 yn Ysgol Llanhari ond oedd wedi cyflwyno ceisiadau am leoedd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wedi hynny. At hynny, derbyniwyd dau gais mewn perthynas â disgyblion oedd yn dymuno trosglwyddo o Ysgol Llanhari i ysgol gyfrwng Saesneg ym Mhen-y-bont ar Ogwr oherwydd bod y disgyblion yn cael anawsterau cyffredinol gydag addysg gyfrwng Cymraeg, a phroblemau gyda grwpiau cyfeillgarwch.

Dywedodd RD fod y wybodaeth yn dangos anwadalrwydd yn y ceisiadau ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau neu Ysgol Llanhari o ran disgyblion oedd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac nad oedd yr un cais yn un flwyddyn. Felly, nid oedd effaith y newid yn y polisi wedi cael ei amgyffred yn llawn yn gynharach. Ymhellach, roedd yn ymddangos nad oedd rhieni/gofalwyr wedi gwirio'r dogfennau perthnasol a gyhoeddwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr cyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau

am leoedd ysgol ac roedd y rhieni/gofalwyr a'r ysgolion hefyd wedi cymryd yn ganiataol y byddai cymorth cludiant ar gael.

Gofynnodd CC a oedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi ysgrifennu at bob rhiant i'w hysbysu am effaith y newid polisi a ddaeth i rym yn 2020. Cadarnhaodd RD na fu unrhyw gyfathrebu â rhieni unigol gan fod y sefyllfa wedi cael ei nodi'n glir yn y polisi a'r dogfennau ategol. At hynny, roedd angen bod yn ofalus na ellid dehongli cyfathrebu o'r fath fel rhywbeth oedd yn ymyrryd â hawl rhieni i arfer eu dewis am ysgol y tu allan i'r sir. Mae'r newid yn y polisi yn gadael i rieni wneud pa benderfyniad bynnag y maent yn ei ddymuno neu ei angen o ran pa ysgolion y maent yn gwneud cais amdanynt, ond na fyddai cludiant ysgol ar gael pe na bai'r ysgol a ffefrid ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd DD fod y ffurflenni cais derbyn i ysgolion eisoes yn cynnwys llawer iawn o ganllawiau i ymgeiswyr. Gellid cynnwys peth arweiniad ychwanegol ynghylch cludiant pe baent yn gwneud cais am ysgol y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr, ond ni châi arweiniad o'r fath ei weld oni bai bod y person yn gwneud cais am ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mynegodd CC ac RD y gred fod Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Llanhari bellach yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa a bod yr ysgolion wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw rieni y gallai effeithio arnynt.

Ailadroddodd RD fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi dilyn proses ffurfiol, statudol o ran y penderfyniad i wneud y newid a'i bod yn anffodus ei bod yn ymddangos bod rhieni wedi cymryd pethau'n ganiataol heb ddilyn yr argymhelliad i gyfeirio at ddogfennau allweddol.

- O ran ymdrin â cheisiadau hwyr, dywedodd DD wrth yr aelodau na fyddai'r newid a gynigiwyd yn y polisi drafft yn cael ei ddatblygu. Er gwaethaf yr heriau gweithredol a achosir gan geisiadau hwyr, edrychwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion a byddai angen cynnal sefyllfa o barodrwydd i ddelio â cheisiadau hwyr pe baent yn dod i mewn cyn y dyddiad cynnig mewn rhai amgylchiadau.

- Roedd Adran 16.3 yn cynnig cyfnod hiraf, safonol o ddau fis o'r dyddiad y derbynnir y cais ar gyfer unrhyw geisiadau ymlaen llaw am dderbyn neu drosglwyddo yn ystod y flwyddyn. Y rheswm am y cynnig oedd dileu'r amrywiad yn y cyfnodau amser a allai godi'n naturiol oherwydd y geiriad yn y polisïau presennol.

- Cynigiwyd newid yn adran 16.5 i gyflwyno'r gallu i'r awdurdod lleol brosesu cais yn ystod y flwyddyn y tu allan i ddyddiad ac amser caeth pe bernid bod amgylchiadau penodol yr achos yn cyfiawnhau hynny.

- Mae rhagor o wybodaeth wedi cael ei hychwanegu at adran 17.3 o God Apeliadau Derbyn i Ysgolion sy'n ymwneud â phobl sydd wedi eu gwahardd rhag cadw cwmni i apelydd mewn gwrandawiad apêl. Roedd y newid yn cael ei gynnig oherwydd bod achlysuron wedi codi yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf pan oedd rhieni wedi cynllunio i bersonau gwaharddedig gyflwyno i'r panel ar eu rhan.

- Y newid olaf a amlygwyd oedd ffurfioli'r cynnydd yn y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gynradd Caerau o 45 i 60.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau ar unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig.

Roedd JT yn bryderus y gellid dehongli'r geiriad yn ymwneud â'r awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol fel pe bai'n berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sy'n awdurdod derbyn iddynt eu hunain. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn cael sylw priodol yn y fersiwn ddrafft v0.2 oedd wedi cael ei dosbarthu i'r aelodau.

Dywedodd RD, er mor gynhwysfawr oedd y polisi, fod rhai newidiadau'n cael eu cynnig bob blwyddyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Dywedodd JT ei fod wedi ailfodelu polisi ei ysgol ef yn seiliedig ar bolisi'r awdurdod lleol oherwydd ei fod mor gynhwysfawr.

Holodd JT oni allai defnyddio'r term 'eithrio ddwywaith' fod yn ddryslyd. Fodd bynnag, dywedodd RD mai hwn oedd y term oedd yn cael ei ddefnyddio bob amser fel y mae'n ymddangos yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

Holodd JT am baragraff olaf adran 5 yn ymwneud â maint dosbarthiadau babanod ac esboniodd DD sut roedd deddfwriaeth dosbarthiadau babanod yn berthnasol pan fydd pennaeth yn penderfynu gweithredu dosbarthiadau blynyddoedd cymysg.

Ni chododd unrhyw ymholiadau pellach, a chadarnhaodd yr aelodau gefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig.

## 7. Polisïau Drafft Derbyn i Ysgolion 2024-2025 – ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (VA)

Cyfeiriodd RD at y polisïau drafft oedd wedi eu dosbarthu i aelodau a chyfrifoldeb y fforwm i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cydymffurfio â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Tra roedd polisi'r awdurdod lleol yn cynnwys manylion sylweddol, roedd polisïau'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn nodedig o gryno o'u cymharu.

Ailadroddodd JT ei fod wedi ailfodelu polisi ei ysgol ef ar bolisi'r awdurdod lleol oherwydd ei fod mor gynhwysfawr, a'i fantais oedd eglurder a bod wedi cael ei brofi, oedd yn ei gwneud yn haws ymdrin ag unrhyw her, yn enwedig mewn achos o apêl. Dywedodd JT ei fod wedi rhannu ei farn â chydweithwyr yn yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

Cadarnhaodd AR ei bod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gael cyngor gan eu hesgobaeth ynghylch geiriad eu polisi. O ran yr ysgolion Pabyddol, nod yr esgobaeth oedd sicrhau bod y cyngor a roddir, a'r polisïau, yn cydymffurfio â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Gyda dros 50 o ysgolion ar draws yr esgobaeth, roedd y rhan fwyaf o'r polisïau'n gryno o'u cymharu â rhai'r awdurdod lleol perthnasol. Pe bai teimlad cryf bod angen mwy o fanylion yn y polisïau, gallai'r esgobaeth edrych ar hynny. Derbynnid

ymholiadau yn rheolaidd gan benaethiaid a llywodraethwyr ar agweddau ar dderbyniadau, a châi cyngor ei roi. O bryd i'w gilydd, adolygir sampl o bolisïau'r ysgol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Nid oedd polisïau ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, ar ôl derbyn y polisïau drwy bapurau cyfarfod y fforwm, roedd AR wedi cynnal adolygiad cyflym. Roedd AR wedi siarad â phennaeth newydd Ysgol Uwchradd Babyddol yr Archesgob McGrath i dynnu sylw at agwedd nad oedd yn cydymffurfio â’r Cod ac y byddai’n rhaid ei newid, yn ymwneud â’r corff llywodraethu’n cadw’r hawl i dderbyn mwy na’u nifer derbyn mewn perthynas â cheisiadau gan rai o’r ffydd Babyddol.

Cyfeiriodd RD at y cynnig blaenorol bod JT a DD yn cynorthwyo'r clwstwr o ran adolygu geiriad eu polisi a nododd fod JT a DD yn bwriadu cyfarfod i drafod y polisïau. Ailfynegodd DD y cymorth sydd ar gael gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â derbyniadau a dywedodd, ar ôl adolygu'r polisïau, fod rhai materion oedd yn werth eu trafod, yn enwedig rhai agweddau ar eiriad gordanysgrifio. Tynnodd DD sylw hefyd at y ffaith fod yr holl bolisïau'n canolbwyntio ar rowndiau derbyn, heb fawr o fanylion mewn perthynas â derbyniadau yn ystod y flwyddyn

## 8. Diweddariad Grŵp Derbyn ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru)

Dywedodd DD wrth yr aelodau mai’r brif eitem a drafodwyd yng nghyfarfod Grŵp Derbyn ADEW ar 1 Gorffennaf 2022 oedd honno yn ymwneud â gwrandawiadau apêl derbyn rhithwir.

Roedd y ddeddfwriaeth frys yn ymwneud â COVID-19 wedi cyflwyno’r gallu i gynnal apeliadau derbyn yn rhithwir ac, mewn rhai amgylchiadau, i banel gynnwys dau aelod yn hytrach nag o leiaf dri. Ar 30 Medi 2022, daw’r ddeddfwriaeth honno i ben.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor ynghylch a oedd digon o hyblygrwydd yn Rheoliadau 2005 (Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru)) i ganiatáu i wrandawiadau panel apêl derbyn barhau yn rhithwir ac osgoi'r angen am broses ddeddfwriaethol ychwanegol. Yn anffodus, y cyngor cyfreithiol oedd nad oedd Rheoliadau 2005 yn caniatáu’r hyblygrwydd hwnnw ac, felly, y byddai angen newid deddfwriaethol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg gydag awdurdodau derbyn a’r adborth gan y mwyafrif llethol oedd bod apeliadau rhithwir wedi bod yn effeithiol, yn gyfleus ac y byddai’r gallu i barhau i gynnal paneli apêl yn rhithwir yn fuddiol iawn. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud ymlaen â deddfwriaeth i ganiatáu apeliadau rhithwir yn y dyfodol ond o 1 Hydref 2022, dylai gwrandawiadau apêl ddychwelyd i fod wyneb yn wyneb.

Pwysleisiodd DD, ar gyfer yr apeliadau hynny yn ymwneud â'r awdurdod lleol, fod y gallu i'w cynnal yn rhithwir wedi bod o fudd i apelyddion, aelodau'r panel a'r awdurdod lleol hefyd. Roedd wedi bod yn fuddiol i rieni a gofalwyr allu cynnal eu cyflwyniad yng nghysur eu cartref eu hunain, gyda chefnogaeth eu teuluoedd. Roedd apeliadau rhithwir wedi dileu'r angen am deithio yn ogystal ag anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau addas a digon o le parcio. Roedd risg wirioneddol na fyddai aelodau’r panel, oedd eisoes yn nifer fechan, yn dymuno ail-ymgysylltu ag apeliadau wyneb yn wyneb.

Lleisiodd RD ei bryder bod y gallu i gynnal apeliadau derbyn rhithwir yn dod i ben. Roedd apeliadau rhithwir wedi cynnig manteision gwirioneddol dros apeliadau wyneb yn wyneb i bawb oedd yn gysylltiedig. Tynnodd RD sylw at y ffaith mai gwirfoddolwyr oedd aelodau paneli apeliadau derbyn a phe byddai ganddynt bryderon ynghylch dychwelyd i apeliadau wyneb yn wyneb a phe baent yn dechrau tynnu'n ôl, y byddai'n anodd i awdurdodau derbyn gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran apeliadau derbyn.

Gwnaeth CC y sylw bod Rhondda cynon Taf yn cytuno â barn Pen-y-bont ar Ogwr a'u bod yn dymuno cadw apeliadau rhithwir. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn cymryd rhan mewn gwrandawiad apêl pan oeddent yn eu cartref eu hunain. Roedd RhCT yn rhagweld problemau gyda chael mynediad i leoliadau addas eto. Roedd Lloegr eisoes wedi pasio deddfwriaeth i ganiatáu i apeliadau rhithwir barhau a'r gobaith oedd na fyddai'n cymryd yn hir i ddeddfwriaeth gael ei phasio yng Nghymru.

Cadarnhaodd CC fod RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr eisoes yn rhannu llawer o aelodau panel apêl, ac felly bod y nifer yn fychan iawn, ac roedd rhai pryderon ynghylch ailddechrau teithio.

Dywedodd DD fod cyfarfod nesaf Grŵp Derbyn ADEW i gael ei gynnal ddydd Gwener, 30 Medi 2022, a'r gobaith oedd y ceid newyddion ynghylch yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Cod Derbyn i Ysgolion newydd.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd RD wrth yr aelodau fod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi yn system Capital One a bod y system wedi dechrau. Daeth i'r amlwg y gallai gweithredu'r system gymryd mwy o amser nag y disgwylid yn wreiddiol gan ei bod yn system yn y cwmwl sy'n cael ei chynnal gan Capita ac nid gan yr awdurdod lleol.

Mae gan y system fodiwlau amrywiol, ac mae un ohonynt yn fodiwl derbyn gyda chyfleuster ymgeisio ar-lein. Roedd cyfleuster ymgeisio ar-lein yr awdurdod lleol ei hun o fewn Fy Nghyfrif wedi bod yn gweithio ers rhai blynyddoedd ac yn parhau i fod yn gadarn. Ni all system Capita One ryngwynebu â Fy Nghyfrif ac felly mae'n bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn defnyddio system Capita One i ddechrau fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Byddai integreiddio yn y dyfodol yn cael ei ystyried, ond y peth pwysig oedd peidio â rhoi rhieni a gofalwyr mewn sefyllfa lle roedd angen iddynt gael mynediad at systemau gwahanol i ryngweithio â gwasanaethau'r Cyngor. Mae'n bosibl na chaiff y modiwl derbyniadau ei ddefnyddio yn y dyfodol, ond os felly, bydd system Capita One yn dal i sicrhau llawer o fanteision eraill yn y dyfodol i'r awdurdod lleol, i bartneriaid ac, o bosibl, i ysgolion.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 10 Ionawr 2023, am 2p.m.

Diolchodd RD I bawb oedd yn bresennol am fod yno ac am eu cyfraniadau.